OCR
RECOGNISING ACHIEVEMENT

TAG

# Seicoleg

**Uned TAG Uwch OCR 2543**

# Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyflwyno Adroddiad Ymchwil Seicoleg

Mae'r rheoliadau a'r gweithdrefnau hyn yn ymgorffori'r rheiny sy'n berthnasol i bob arholiad OCR sy'n cynnwys gwaith cwrs a asesir yn allanol ac maent yn cydymffurfio â holl adrannau perthnasol *Cod Ymarfer 2003/4 TGAU, TAG, TAA a CGCC* y QCA.

## 1 Tynnir sylw at y dogfennau canlynol:

(a) Manyleb Seicoleg TAG UG/Safon Uwch (3876/7876), Adran 4.2.2, tud. 18-19, Adran 5.4, tud. 30-31, Atodiad B, tud. 61-63
(b) y Rheoliadau Gwaith Cwrs Cyffredinol yn Adran 5 yn y Canllaw Gweinyddol Cyfredol a'r Ffolder Gweithdrefnau Mynediad

## 2 Hysbysu a Chymeradwyo

Er mwyn sicrhau bod y prosiect ymarferol yn foesegol ac yn ddiogel, **rhaid** i bob ymgeisydd gyflwyno crynodeb o'r gwaith ar ffurflen gynnig i Ymgynghorydd Gwaith Cwrs y Ganolfan.

Sefydlwyd Rhwydwaith Rhanbarthol o Ymgynghorwyr Gwaith Cwrs ar gyfer athrawon/darlithwyr Seicoleg OCR. Neilltuir Ymgynghorydd i bob Canolfan a dylid cyflwyno ffurflenni ymgeiswyr iddo/iddi i'w cymeradwyo. Gellir cael manylion am Ymgynghorwyr Gwaith Cwrs a chopïau o ffurflen gynnig yr Adroddiad Ymchwil Seicoleg 3 – rhan gan: Social Science Qualifications Team, OCR, 1 Hills Road, Cambridge, CB1 2EU.

Dylid llenwi ffurflenni cynnig a'u cyflwyno yn unol â'r amserlen a roddir isod yn Adran 5. Dylai canolfannau gadw'r copi gwaelod (melyn) o'r ffurflen ar gyfer eu cofnodion eu hunain. Dylid anfon y ddau gopi ar y top yn uniongyrchol at Ymgynghorydd Gwaith Cwrs y Ganolfan, a fydd fel arfer yn eu dychwelyd ymhen 15 i 20 diwrnod gwaith. Gall y broses gymeradwyo gymryd mwy o amser na hyn os bydd nifer fawr o ymgeiswyr, dyweder 30 o ymgeiswyr neu fwy, yn cyflwyno cynigion. Bydd y copi top (gwyn) o'r cynnig yn cael ei ddychwelyd i Ganolfannau, gyda sylwadau'r Ymgynghorydd Gwaith Cwrs. Dylid cadw'r copi hwn a'i gynnwys gyda'r Adroddiad Ymchwil Seicoleg pan gaiff ei gyflwyno.

Sylwch ei bod yn ofyniad yn y fanyleb bod pob ymgeisydd sy'n cofrestru ar gyfer Adroddiad Ymchwil Seicoleg 2543 yn llenwi ffurflen gynnig ac yn ei chyflwyno i'w chymeradwyo **cyn dechrau gweithio ar yr Adroddiad.** Dylid cyflwyno ffurflenni a'u cymeradwyo **erbyn 14 Chwefror fan bellaf** yn y flwyddyn galendr y mae Ymgeiswyr yn cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiad haf. Dylai athrawon sy'n dymuno bod eu hymgeiswyr yn dechrau gweithio ar eu Hadroddiad Ymchwil yn ystod y gwyliau haf, ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y cwrs, sicrhau bod eu ffurflenni cynnig yn cael eu cyflwyno **erbyn 1 Mai fan bellaf**, er mwyn iddynt gael eu dychwelyd cyn diwedd y tymor. Rhaid cytuno ar unrhyw ddyddiad cyflwyno ar gyfer ffurflenni cynnig ar ôl 1 Mai gydag Ymgynghorydd y Ganolfan ymlaen llaw. Mae hyn i sicrhau bod baich gwaith Ymgynghorwyr Gwaith Cwrs OCR yn parhau yn hylaw, gan mai arholwyr ac athrawon yw'r mwyafrif o'r Ymgynghorwyr.


Oxford Cambridge and RSA Examination

Mae OCR yn cadw'r hawl i wrthod cynigion sy'n ymddangos yn annoeth mewn unrhyw ffordd. Pan gaiff cynnig ei wrthod neu ei ailgyflwyno, rhoddir esboniad cryno. Pan gaiff cynnig ei gymeradwyo, neu ei gymeradwyo gydag addasiadau, mae Ymgynghorwyr Gwaith Cwrs yn mynegi'r farn bod cynnig yn gallu cael ei ddatblygu yn Brosiect Ymarferol o'r safon a ddisgwylir ar Lefel Uwch. Dylid **cyflwyno a chymeradwyo** cynigion newydd yn lle unrhyw gynigion a wrthodir gan yr Ymgynghorwyr Gwaith Cwrs **erbyn 14 Chwefror cyn yr arholiad haf**. Rhaid marcio 'Ail-gyflwyniad' yn glir ar gynigion o'r fath. Gall ymgeisydd newid cynnig wedi'i gymeradwyo, ar yr amod bod y cynnig newydd yn dod i law erbyn y dyddiad cau gwreiddiol a'i fod wedi'i farcio'n glir â 'Cynnig Newydd'. **Rhaid** rhoi'r copi top (gwyn) o'r cynnig sydd wedi'i gymeradwyo gyda phob Prosiect Ymarferol a gwblhawyd.

Dylai athrawon fod yn ymwybodol bod OCR yn cadw'r hawl i ddyfarnu dim marciau ar gyfer y Prosiect Ymarferol os na ddilynir y gweithdrefnau hyn.

## 3. Cyflwyno Gwaith Cwrs

- Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno'r Adroddiad Ymchwil Seicoleg yw **15 Mai.** Bydd y dyddiad ar gyfer cyflwyno yn aros yr un fath bob blwyddyn.

- Bydd cofrestr presenoldeb, yn rhestru pob ymgeisydd sy'n cofrestru ar gyfer yr Adroddiad Ymchwil Seicoleg, Uned 2543, label cyfeiriad arholwr a deunydd perthnasol arall yn cael eu dosbarthu i Ganolfannau ar ddechrau mis Mai, pan fydd data mynediad terfynol wedi cael ei brosesu. Dylid marcio unrhyw ymgeisydd nad yw'n cyflwyno Adroddiad Ymchwil yn 'absennol' ar y gofrestr presenoldeb. Rhaid anfon yr Adroddiadau Ymchwil Seicoleg at yr arholwr, gan ddefnyddio'r label cyfeiriad arholwr a'r sach a ddarperir gan OCR, ar neu cyn **15 Mai.** (Sylwch **na** ddylid anfon yr Adroddiad Ymchwil Seicoleg Uned 2543 at Ymgynghorwyr Gwaith Cwrs.)

- Rhowch gopi o'r Clawr Gwaith Cwrs ynghlwm wrth bob Adroddiad Ymchwil Seicoleg gan ddefnyddio cysylltwr. **Ni chewch ddefnyddio ffeiliau modrwy, ffolderi amlen cerdyn, ffolderi dogfen plastig, ac ati**. Sicrhewch fod yr holl flychau priodol ar y clawr wedi cael eu llenwi gan yr ymgeisydd gyda'r manylion canlynol:

  Enw a rhif y Ganolfan
  Enw a rhif yr Ymgeisydd
  Teitl y Prosiect Ymarferol
  Cyfanswm nifer y geiriau
  Teitl yr Aseiniad
  Cyfanswm nifer y geiriau

**DS** Ni ddylai'r **Prosiect Ymarferol** fod yn **fwy na 1400 o eiriau** ac ni ddylai'r **Aseiniad** fod yn **fwy na 1000 o eiriau.** Ni fydd astudiaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfyngiad geiriau yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer cyflwyno o ran eglurder, crynoder a chydlyniad a byddant yn cael eu marcio yn unol â hynny. Mae hyn yn cydymffurfio â *Chod Ymarfer 2003/4 TGAU, TAG, TAA a CGCC* y QCA, ac mae'n sicrhau bod dull teg a chyson o ran ymgeiswyr sy'n ysgrifennu mwy na'r cyfyngiadau o ran nifer y geiriau.

- Dylid rhifo tudalennau.

- **Rhaid** i'r athro/athrawon sy'n gyfrifol am oruchwylio ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer Uned 2543 lofnodi 'Ffurflen y Ganolfan ar gyfer Dilysu Gwaith Cwrs' (CCS160) ac anfon y ffurflen hon wedi'i llenwi at yr Arholwr gyda'r Adroddiadau Ymchwil. Yn ychwanegol, rhaid i Ganolfannau sicrhau bod pob ymgeisydd yn cwblhau 'Datganiad Dilysu Ymgeisydd' ond rhaid cadw'r rhain yn ddiogel yn y Ganolfan. Os bydd Canolfan yn gwrthod dilysu gwaith unrhyw ymgeisydd, ni ddyfernir marc i'r ymgeisydd hwnnw ar gyfer Uned 2543.

- **Cynghorir Canolfannau yn gryf y dylent gadw copi o bob Adroddiad Ymchwil Seicoleg (naill ai ar ddisg neu lungopi).**

## 4. Dychwelyd Adroddiadau Ymchwil Seicoleg

Gwaith cwrs **sy'n cael ei arholi** yw'r Adroddiad Ymchwil Seicoleg. Mae *Cod Ymarfer 2003/4 TGAU, TAG, TAA a CGCC* y QCA yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried pob darn o waith cwrs sy'n cael ei arholi yn 'sgript' at ddibenion asesu. Sylwch, yn wahanol i waith cwrs a asesir gan yr athro, lle safonir sampl o'r gwaith yn unig, **na** chaiff gwaith cwrs wedi'i arholi ei ddychwelyd i ganolfannau yn awtomatig.

Bydd yn ofynnol i ganolfannau sy'n dymuno bod gwaith cwrs eu hymgeiswyr yn cael ei ddychwelyd iddynt gwblhau cais o dan weithdrefnau Mynediad at Sgriptiau Arholiad wedi'u Marcio. O dan *God Ymarfer* y QCA, y Canolfannau sy'n gyfrifol am wneud yn siwr bod ymgeiswyr yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer mynediad at sgriptiau cyn yr arholiad. Rhaid gwneud pob cais yn ôl yr amserlenni a benodir gan y JCQ a'r QCA. Bydd cost weinyddol am bob Adroddiad Ymchwil a ddychwelir. Bydd manylion am y ffi dan sylw a'r dyddiad cau terfynol ar gyfer gofyn am ddychwelyd sgriptiau yn cael eu hanfon at bob Swyddog Arholi pan gyflwynir canlyniadau. Bydd yr holl fanylion perthnasol hefyd yn cael eu rhoi ar wefan OCR yn www.ocr.org.uk.

**DS** Mae Gweithdrefnau OCR yn gofyn i arholwyr beidio ag anodi gwaith cwrs. Fodd bynnag, o 2003 ymlaen, gofynnir i arholwyr lofnodi â blaenlythrennau neu dicio pob tudalen o'r gwaith, fel tystiolaeth iddo gael ei farcio. Bydd dadansoddiad llawn o'r marciau yn ôl Cydran ac Adran yn cael ei roi ar Daflen Marcio Gwaith, a bydd copi o'r daflen yn cael ei roi ynghlwm wrth y gwaith cwrs os bydd y Ganolfan yn gofyn bod y gwaith yn cael ei ddychwelyd iddi.

## 5. Amserlen

Ar ôl derbyn cymeradwyaeth, gellir cwblhau'r Prosiect Ymarferol ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs. Rhaid cwblhau pob Adroddiad Ymchwil Seicoleg (Prosiect Ymarferol ac Aseiniad) a'i bostio **erbyn 15 Mai fan bellaf** at yr arholwr a fydd yn marcio gwaith y Ganolfan, fel yr amlinellir yn Adran 3 uchod.

**AMSERLEN**

| | |
|---|---|
| Anfon Cynigion at yr Ymgynghorydd Gwaith Cwrs: | O 1 Mawrth ymlaen yn y flwyddyn galendr cyn yr arholiad ar gyfer ymgeiswyr dwy flynedd. DS. **Rhaid cyflwyno** ffurflenni **erbyn 1 Mai os bydd canolfannau yn dymuno cael adborth cyn diwedd tymor yr haf** yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs. |
| Rhaid cyflwyno **a** chymeradwyo cynigion: | Erbyn **14 Chwefror** yn ystod blwyddyn yr arholiad. |
| Rhaid postio Adroddiadau Ymchwil wedi'u cwblhau at Arholwr OCR: | Erbyn **15 Mai** fan bellaf yn y sesiwn arholi olaf. |
| Dychwelyd Adroddiadau Ymchwil Seicoleg: | O dan weithdrefnau Mynediad at Sgriptiau, yn unol ag amserlenni a bennir bob blwyddyn gan JCQ a'r QCA. Gweler OCR *Hysbysiad i Ganolfannau*, Trefniadau ar gyfer Mynediad at Sgriptiau Arholiad wedi'u Marcio. |